Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

5 Mawrth 2019

Annwyl Mike

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror 2018.

Hoffwn ymddiheuro am yr anghyfleustra sydd wedi deillio o amseriad fy ymateb i'r Pwyllgor ynghylch yr adroddiad ar gyllideb ddrafft yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar gyfer 2019-20.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod unrhyw ymatebion i gwestiynau ac argymhellion gan y Pwyllgor yn cael eu bodloni o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol. Rwy'n cydnabod bod nifer o faterion wedi effeithio ar yr amser a oedd gan y swyddogion i ystyried yr ymatebion, a bod hyn wedi effeithio ar y dyddiad cyflwyno ac ar allu'r Pwyllgor i ystyried yr ymatebion yn ddigonol.

Er bod y cyfnod hwn wedi bod yn gyfnod anodd byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn adolygu'r broses ac yn dysgu gwersi fel bod modd rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor na fydd unrhyw oedi yn y dyfodol o safbwynt ymateb i adroddiadau.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.